

Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru

Dydd Mawrth 8 Mai 2018
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol

Cadeirydd

Andrew Jacobs Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Paul Neave Uned Cynhwysiant Ariannol
Charlotte Anscombe Uned Cynhwysiant Ariannol
Eryl Loring Uned Cynhwysiant Ariannol
Neil Roberts Addysg

Aelodau

Farida Aslam Cymdeithas Tai Mynwy
Liz Emmons Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
Helene Hayes Cyngor ar Bopeth Cymru
Leanne Herberg Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Selina Moyo Tai Cymunedol Cymru
Lee Phillips Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Graham Roberts Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ymddiheuriadau:

Amelia John Is-Gyfarwyddwr Cymunedau, Llywodraeth Cymru
Karl Thomas Polisiâu Tai, Llywodraeth Cymru
Jocelle Lovell Canolfan Cydweithredol Cymru
Geraint Willington Consortiwm Addysg De Ddwyrain Cymru
Sean O'Neill Plant yng Nghymru
Jonathan Brenchley Banc Barclays
Lisa Hayward CLILC
Iwan Williams Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn

1. Croeso, Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

- 1.1 Croesawodd Andrew Jacobs (AJ) yr aelodau i chweched cyfarfod y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol a diolchodd iddynt i gyd am ddod. Estynnodd AJ groeso i Neil Roberts o Adran Addysg Llywodraeth Cymru a oedd yn cymryd lle Helen Freese, ac i Eryl Loring hefyd a oedd yn ddiweddar wedi cymryd rôl Lisa Wait yn Uned Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 22 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau.
- 1.3 Mewn perthynas â'r cam gweithredu a gododd ym mharagraff 2.9, mae cyfarfod wedi'i drefnu bellach gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 15

Mai 2018. Yn y lle cyntaf, bydd yn gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru iddynt gyfleu pwysigrwydd hyrwyddo Cynhwysiant Ariannol a Gallu Ariannol i wella llesiant cenedlaethau'r cyfodol yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y cyfarfod yn arwain at ymgysylltiad parhaus â swyddfa'r Comisiynydd.

2. Diweddariad ar y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS)

- 2.1 Hysbysodd Lee Phillips (LP) yr aelodau y bydd wythnos Gallu Ariannol yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 12 Tachwedd ac y bydd yr hashnodau #siaradariancymru a #talkmoneywales yn cael eu defnyddio fel y llynedd i hyrwyddo gweithgareddau yn ystod yr wythnos.
- 2.2 Dosbarthodd LP Fap o'r Meysydd Polisi ar gyfer Cymru sy'n dangos sut mae gan Gallu Ariannol gysylltiadau uniongyrchol â meysydd portffolio, Strategaethau a Pholisïau cyfredol Llywodraeth Cymru. Bydd y map ar gael ar wefan MAS yn fuan os hoffai aelodau ei weld a gellir ei rannu ag eraill os oes angen. Diolchodd AJ i LP am y darn defnyddiol iawn hwn o waith ac roedd yn falch o weld bod nifer helaeth o adrannau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y map sy'n arwydd da ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol. Diolchodd LP i Sally Hunt o Lywodraeth Cymru am gydlynu'r ymarfer. Gellir lawrlwytho'r map o'r meysydd polisi yn [FinCap Map o Feysydd Polisi ar gyfer Cymru](#).
- 2.3 Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod Gallu Ariannol yn cael ei gynnwys ym Meysydd Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd Mathemateg (MDPh) y cwricwlwm newydd trwy'r broses nodi 'Yr Hyn Sy'n Bwysig'.
- 2.4 Mae gan MAS 7 prosiect 'Beth sy'n Gweithio/What Works' ar y gweill yng Nghymru. Caiff yr adroddiadau gwerthuso terfynol eu llwytho ar Hyb Tystiolaeth gwefan Strategaeth Gallu Ariannol wrth iddyn nhw gael eu cyflawni a bydd modd eu gweld [yma](#).
- 2.5 Prosiect rhianta yw Siarad Dysgu Gwneud a ddatblygwyd gan MAS ac sy'n cael ei dreialu yng Nghymru. Erbyn hyn, mae gwerthusiad y prosiect yn y cyfnod 6 mis a chynhelir cyfarfod â phartneriaid cyllido allweddol a swyddogion Llywodraeth Cymru ar 9 Mai i drafod y canfyddiadau. Mae'r gwerthusiad ar y gweill - bydd ailwerthusiad ymhen 12 mis a chyhoeddir adroddiad terfynol yn yr hydref. Bydd Siarad Dysgu Gwneud yn fenter i'r DU gyfan ond cynhelir y digwyddiad lansio yng Nghaerdydd ddiwedd y flwyddyn i nodi llwyddiant y cynllun peilot yng Nghymru.
- 2.6 Mae gwefan Gallu Ariannol yn gweithio ar Fframwaith ymarferwyr ifanc sydd wedi'i dreialu ledled y DU. Ar wefan fincap.org.uk hefyd, fe welwch fframweithiau canlyniadau i blant, pobl ifanc a rhieni, oedolion ac athrawon. Mae'r fframwaith pobl hyn ar gael bellach hefyd.
- 2.7 Bellach mae gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr becyn cymorth ar gyfer cynghorwyr myfyrwyr. Ar hyn o bryd maen nhw'n hyrwyddo cynilo ac yn codi ymwybyddiaeth o ddiwyddynnu o'r gyflogres unwaith y bydd myfyrwyr mewn cyflogaeth. Mae potensial i hyrwyddo hyn ymhellach yn y cylch cyllido 'Beth sy'n Gweithio/What Works' nesaf – mae oddeutu £3 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer 2018/19 a fydd yn canolbwyntio ar y gweithle, gallu ariannol, cyngor ar ddyledion ac adnoddau ar-lein.

- 2.8 Hefyd, fel rhan o 'Beth sy'n Gweithio/What Works', mae MAS yn bwriadu datblygu ymarferwyr a chyflwyno Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer darparwyr cyngor. Mae gan MAS unigolyn penodedig, Michaela Kirsop-Holdford, sy'n hyrwyddo'r gwaith ac sydd wedi bod yn cyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru, i Agored ac i nifer o ymarferwyr er mwyn rhoi hyn ar waith.
- 2.9 Cynhelir Arolwg Gallu Ariannol nesaf Cymru yn 2018 ac mae cyflenwr wedi'i nodi. Mae ystadegau dyledion 2017 a'r map o or-ddyledion yn nodi bod gan Gymru raddfa uwch o hyd o or-ddyled, sef 17.7% o gymharu â 15.9% yng ngweddill y DU. Argymhellodd LP y dylai aelodau edrych yn fanylach ar yr ystadegau a chytunodd i ddarparu doler ar gyfer eu dosbarthu.
- 2.10 Gofynnodd Paul Neave (PN) a ellid arosod y map darpariaeth dros y map gor-ddyled. Bydd LP yn gofyn am gyngor pellach ar hyn ac yn ateb.

Camau Gweithredu:

1. LP i ddarparu doler i'r map gor-ddyled sydd ar gael bellach yn:
<http://overindebtednessmap.org/>.
 2. LP i ystyried ymhellach y posibilrwydd o arosod y map darpariaeth dros y map gor-ddyled.
- 2.11 Mae diweddariad chwarterol y Strategaeth Gallu Ariannol ar gael bellach ar y wefan ond mae hefyd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru er gwybodaeth.

3. Diweddariad Cyngor ar Bopeth

3.1 Cafwyd cyflwyniad gan Helen Hayes (HH) a oedd yn cynnwys:

- Galwad Cyngor ar Bopeth ar i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol roi cap ar rentu i brynu/benthycwyr steipen y drws;
- Gwerthusiad o Sgyrsiau Arian – canfyddiadau sy'n dod i'r fei;
- Canfyddiadau sy'n dod i'r fei am iechyd meddwl ac ymchwil ariannol.

Mae copi o'r cyflwyniad yn Atodiad A.

3.2 Sylwadau / Cwestiynau:

- 3.2.1 Soniodd Liz Emmons (LE) wrth yr aelodau am adnodd defnyddiol – 'Fair for You' lle gall cwsmeriaid brynu nwyddau'n uniongyrchol oddi wrth y cyflenwr gan ddefnyddio benthyciad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan:
<https://www.fairforyou.co.uk/>
- 3.2.2 Dywedodd Farida Aslam (FA) mai prin yw'r adnoddau sydd gan Gyngor Sir Mynwy i gynorthwyo cleientiaid gyda phroblemau iechyd meddwl. Ar hyn o bryd maen nhw'n defnyddio porth Dewis Cymru ond dylai cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.
- 3.2.3 Credyd Cynhwysol - cyhoeddwyd dau adroddiad perthnasol i Gymru yn Ebrill eleni. Roedd yr adroddiadau yn pwysleisio rhai o ddiffygion posibl Credyd Cynhwysol, sydd weithiau yn gallu gadael pobl hunangyflogedig dan anfantais ariannol o'u cymharu â'r rhai sy'n ennill cyflog cyfatebol fel cyflogeion. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Roedd Graham Roberts (GR) yn cydnabod bod rhai problemau yn ymwneud â hunangyflogaeth, ond teimlai ei bod yn bwysig nodi bod llawer o bobl mewn sefyllfaoedd hunangyflogaeth anhyfyw, sy'n golygu eu bod yn dibynnu ar gredydau treth. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn mynd ati i gefnogi perchnogion busnesau newydd am 12 mis yn unig, ond ni fyddent yn cynnal busnesau nad ydynt yn hyfyw yn y tymor hirach.

- 3.2.4 Gofynnodd Charlotte Ancombe (CA) a oedd yna gyfranogaeth dda gyda menter Digwyddiadau Bywyd yn gysylltiedig â'r 'atgyfeiriadau cynnes' (warm referrals). Cadarnhaodd HH fod hynny'n wir, a bod partneriaeth dda wedi'i chreu ac er bod y ffocws wedi newid o gefnogaeth heb ei thargedu i gefnogaeth wedi'i thargedu, eto cafwyd canlyniadau da.
- 3.2.5 Gofynnodd AJ a oedd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cyhoeddi ymateb i awgrym Cyngor ar Bopeth ynghylch capio llog ar rentu i brynu. Nid oedd HH yn credu bod ymateb wedi'i dderbyn ond byddai'n gwirio'r sefyllfa.
- 3.2.6 Gofynnodd FA a oedd y cynnydd yn y dangosydd llesiant wedi'i gasglu ar ddiwedd y prosiect neu ar ôl cyfnod o amser. Cadarnhaodd HH nad ar ddiwedd y prosiect y casglwyd y wybodaeth ond bod yr arolwg wedi'i gynnal ar ôl cyfnod o amser.
- 3.2.7 Pwysleisiodd AJ y cysylltiadau ag iechyd meddwl â'r gwaith y mae MAS yn ei wneud gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chytunodd LP i anfon cyflwyniad HH at Adam Jones yn ICC sy'n arwain y gwaith hwn yno.

Camau Gweithredu:

1. HH i rannu adroddiad gwerthuso terfynol Sgyrsiau Arian pan fydd ar gael, ynghyd â chanfyddiadau a ddaw i'r fei o'r Ymchwil ar Iechyd Meddwl ac Arian.
2. HH i gadarnhau a yw'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi ymateb i'r alwad am roi cap ar log yn y farchnad rhentu i brynu.
3. LP i anfon y cyflwyniad ymlaen at Adam Jones yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

4. Diweddariad Llywodraeth Cymru

- 4.1 Darparodd PN ddiweddariad ar y Gwasanaethau Cyngori a hysbysodd yr aelodau fod y cynllun gweithredu cyngor a gwybodaeth wedi cael ei adolygiad blynyddol gan y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol (NAN) a bod y broses derfynol ar waith cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn gynnar ym mis Gorffennaf.
- 4.2 Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor – bellach cafwyd cysylltiad â holl Berchnogion Safonau Ansawdd ac mae cynllun y broses asesu wedi'i gwblhau. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru mewn sefyllfa i gyflwyno eu safonau sicrwydd ansawdd i'w hasesu erbyn diwedd Mehefin ac mae'r perchnogion safonau eraill yn bwriadu cyflwyno eu rhai hwy erbyn mis Hydref. Ddiwedd Mai, gall darparwyr ymgeisio i ddod yn 'ddarparwyr llwybrau' (pathfinder providers) a bydd MBARC yn gweithio gyda nhw i gyrraedd y safon sicrwydd ansawdd. Hefyd mae MBARC wrthi'n recriwtio aseswyr llawrydd y gellir galw arnynt at ddibenion asesu ac achredu ledled Cymru, yn cynnwys at ddefnydd Llywodraeth Cymru.

4.3 Nododd PN y bu cynnydd yn nifer y rhai a ymwelodd â Phorth Dewis Cymru ar ôl bod ar weithdai darparwyr IAQF. Hefyd dywedodd fod y NAN yn cydnabod bod angen mwy o ymgysylltiad lleol â darparwyr i'w hannog i nodi eu manylion gwasanaeth ar Borth Dewis Cymru. Gofynnodd AJ i'r grŵp ymateb i'r mater hwn, a chafwyd trafodaeth bellach a gofynnodd am unrhyw atebion i'r sefyllfa:

- Dywedodd FA fod trefn ar waith gan Gyngor Sir Mynwy ar gyfer rhannu arferion da a chadarnhaodd y gellid hyrwyddo Dewis Cymru trwy ddefnyddio'r drefn honno. Cytunodd Selina Moyo (SM) y gellid gwneud hyn ac y dylid ei rannu trwy ddefnyddio rhwydweithiau mewnol.
- Cododd FA y cwestiwn a allai Llywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo Dewis Cymru. Eglurodd AJ nad yw'r gynulleidfa y bydd un sefydliad yn ei chyrraedd yn ddigon a bod y cyfrifoldeb am gyhoedduswydd ar yr holl asiantaethau ac yn dibynnu ar bawb perthnasol yn cyfleu'r un neges.
- Gofynnodd LP a allai LIC ei gwneud yn amod o gyllid bod rhaid i ddarparwyr fod wedi'u cofrestru ar borth Dewis Cymru cyn ymgeisio am gyllid. Cadarnhaodd AJ y byddai LIC yn sicr yn annog darparwyr i ymuno â Dewis Cymru a'u bod yn optimistaidd y bydden nhw'n awyddus i fod ar y porth am resymau eraill heblaw am gyllid.
- Cydnabuwyd nad oedd Lisa Hayward o CLILC yn bresennol i roi ei barn, fodd bynnag gan mai CLILC yw perchnogion Dewis Cymru, mae'n debygol o gael ei gymedroli er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd safon benodol o ddarparu gwybodaeth o ansawdd.
- Cafwyd pryderon gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol bod gofyn iddyn nhw gwblhau manylion ar Dewis Cymru pan fo cyfeiriadur gwybodaeth ar gael yn barod. Gallai hyn arwain at berygl o ddyblygu neu anghysondebau rhwng y ddwy system wrth fwrw ymlaen. Gofynnodd FA a ellid cyfuno'r ddwy gronfa ddata neu a allai Dewis Cymru ddisodli'r gronfa ddata arall.
- Terfynodd AJ y drafodaeth drwy gadarnhau y bydd y pwnc hwn yn cael ei drafod gydag CLILC ac awgrymodd HH y byddai CGGC hefyd o bosibl yn gallu helpu gan fod ganddyn nhw borth tebyg ar gyfer dod o hyd i wasanaethau yn lleol.

Cam Gweithredu: Materion gyda Dewis Cymru i'w trafod gyda Lisa Hayward o CLILC a chael hyd i gyswllt o CGGC.

4.4 Corff Arweiniad Ariannol Unigol (SFGB) – Cafwyd diweddariad cryno gan AJ. Yn dilyn oedi i ddechrau, mae'r gwaith o'i sefydlu bellach yn symud ymlaen yn gyflym. Mae wedi bod drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac ar hyn o bryd yn aros am Gydsyniad Brenhinol. Mae'r gwaith o recriwtio Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol ar y gweill. Ataliwyd y ddeialog rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Trysorlys yn ystod yr oedi cychwynnol ond mae'r ddeialog ar waith erbyn hyn.

4.5 Darparodd CA ddiweddariad ar y Gronfa Cymorth Dewisol a chadarnhaodd iddi wario mwy eleni gyda 75,000 o geisiadau, 35,000 o daliadau brys a dyfarnwyd 4,500 o

grantiau. Rhagwelir y bydd y gwario yn well eto yn 2018/19. Mae swyddogion wedi canolbwyntio ar wella graddfa lwyddiant ceisiadau a gefnogir gan bartneriaid, sy'n 86% ar hyn o bryd. Bwriedir cynnig dyfarniad 'mewn egwyddor' ar gyfer y ceisiadau hynny lle mae gwybodaeth ar goll, megis cyfeiriad neu Rif Yswiriant Gwladol, ond ei bod yn amlwg fod angen cymorth. Anogir ceisiadau a gefnogir bob amser, a'r dymuniad yw dangos hyn trwy gydweithio'n agosach â'n partneriaid, er mwyn canfod rhwystrau a mynd i'r afael â hwy cyn gynted ag y bo modd. Dywedodd CA hefyd, yn yr un modd, pan fo cais wedi'i wneud am Gredyd Cynhwysol ond bod y ceisydd yn aros am y taliad cyntaf ond yn methu â darparu cadarnhad i'r Gronfa, y gall partneriaid bellach gadarnhau amgylchiadau eu cleientiaid - sef bod cais wedi'i wneud am Gredyd, er mwyn cael Taliad Brys yn y cyfamser.

- 4.6 Gofynnodd LP sut y gellir lleihau ail geisiadau. Eglurodd CA y bydd y prosiect Penderfyniad a Chydnerthedd arfaethedig, sydd ar y gweill yn Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin, yn edrych ar y posibilrwydd o annog aelwydydd i barhau i ymgysylltu'n weithgar â darparwr (ar ôl i'w problem gael ei datrys) er mwyn mynd i'r afael â materion sylfaenol a gyfrannodd at eu hangen i fynd i'r afael â'r Gronfa, a dylai hynny yn ei dro leihau nifer yr ail geisiadau i'r Gronfa.
- 4.7 Undebau Credyd – mae 19 o brosiectau wedi llwyddo i gael cyllid ar gyfer 2018 - 20. Eto, mae'r prosiectau yn amrywiol, pob un ohonynt yn gysylltiedig â chynhwysiant ariannol, yn cynnwys cynilwyr mewn carchardai, cynilwyr mewn ysgolion a hyrwyddo cyflogres.
- 4.8 Hysbysodd AJ y grŵp fod Partneriaeth Cymru yn erbyn Sgamiau (WASP) yn bwriadu cynnal digwyddiad cenedlaethol i ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i drafod sut i fynd i'r afael â sgamiau drwy'r post, ar stepen y drws ac ar y ffôn yng Nghymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

5. Diweddariad ar Gynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol

- 5.1 Mewn ymateb i adborth yng nghyfarfod diwethaf FISG ym mis Tachwedd 2017, mae swyddogion wedi bod yn gweithio ar ail-lunio fformat y cynllun cyflawni. Y bwriad yw adlewyrchu Strategaeth MAS Cymru sy'n rhoi diweddariadau fel ciplun mewn amser yn hytrach na chasgliad o wybodaeth. Diolchodd AJ i'r aelodau a gyfarfu ag Eryl Loring (EL) i helpu gyda'r gwaith ailstrwythuro.
- 5.2 Mewn perthynas â'r diweddariad ar gyfer Cam Gweithredu 2.1, gofynnodd AJ i HH ddarparu rhagor o wybodaeth am Grŵp Cynghori Cyngor ar Bopeth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sy'n edrych ar ymchwil mewn perthynas â Chynhwysiant Digidol a Chredyd Cynhwysol.

Cam Gweithredu: HH i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr uchod.

- 5.3 Gofynnodd FA pa gamau a gymerir i nodi blwyddyn gyntaf FIDP. Dywedodd AJ fod swyddogion yn bwriadu cynhyrchu adroddiad Blynnyddol a fyddai'n nodi cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Gofynnodd FA sut y gellid annog y sector Tai i

adrodd yn erbyn camau gweithredu FIDP. Awgrymodd AJ y gellid hyrwyddo ymhlith rhwydweithiau ac annog ymarferwyr i ddarparu cyfraniadau. Cytunodd FA gan ychwanegu y byddai'n hapus i godi hyn gyda'i Sector Tai ei hun ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod FISG nesaf. Awgrymodd LP hefyd y gellid hyrwyddo ymhellach yn ystod wythnos Gallu Ariannol.

Camau Gweithredu:

1. FA i weithio gyda SM i hyrwyddo'r gwaith o adrodd yn erbyn Camau Gweithredu yn y FIDP yn y Sector Tai.
2. LP i drydar y Map Polisi Gallu Ariannol ar gyfer Cymru a'r holl aelodau i ail-drydar i'w rhwydweithiau.

5.4 Tynnodd PN sylw aelodau at ddiweddariad 12.2 – mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol, sy'n cydnabod bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ariannu anghenion gwasanaethau ariannol mewnol i'w wario ar wasanaethau sy'n sicr eu hansawdd ac maen nhw'n awyddus i gysylltu gwasanaethau mewnol â Safon Sicrwydd Ansawdd IAQF. Mae rhai modelau o wasanaethau cynghori mewnol da yn gweithredu yn yr LCC, e.e. Sir Fynwy a Chartrefi Melin.

5.5 Cafwyd diweddariad gan Neil Roberts (NR) ar y cwricwlwm newydd a fydd ar gael erbyn Ebrill 2019 ar gyfer derbyn adborth ac a fydd ar waith yng Nghymru o 2022. Mae'n amlwg bod gallu ariannol yn perthyn i ddau Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) – Mathemateg a Rhifedd a Iechyd a Llesiant.

5.6 Gofynnodd Leanne Herberg (LH) sut y gellid cynnwys ysgolion. Eglurodd NR fod y cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu gan athrawon ac ymarferwyr trwy rwydwaith o Ysgolion Arloesi, ac mae rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

5.7 Lansiyd Rhwydwaith Cenedlaethol Rhagoriaeth mewn Mathemateg (NNEM) ym mis Gorffennaf 2017 ac mae maes penodedig ar wefan HWB yn benodol ar gyfer hyn, gydag adnoddau ar gael i athrawon i gefnogi'r dysgu.

5.8 Gofynnodd LH y dylid dilysu Cam Gweithredu 20.1 gan ei bod yn credu bod y gweithgaredd Financial Wings bellach wedi dod i ben. Hefyd gofynnodd FA am ddiweddariad yng Ngham Gweithredu 20.3 gan fod hyn bellach yn anghyfredol a bydd yn darparu diweddariad pellach pan fydd ar gael.

Cam Gweithredu: EL i ddiweddarau'r FIDP i adlewyrchu'r pwyntiau uchod.

6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Adroddodd LH ar fater yr wythnos flaenorol gyda cherdyn rhagdaliad undeb credyd 'Contis' na ellid ei ddiweddarau am ddyddiau lawer. Darperir y cerdyn hwn gan NatWest Bank ac fe'i defnyddir gan nifer o undebau credyd. Roedd y broblem yn effeithio ar yr holl gardiau, ond mae'r mater bellach wedi'i ddatrys.

6.2 Gofynnodd LP i aelodau am unrhyw gynlluniau y gellid eu rhoi ar waith i baratoi at yr Wythnos Gallu Ariannol. Awgrymodd AJ y gallai aelodau'r Grŵp Llywio fynd ati'n weithgar i hyrwyddo'r 'wythnos Gallu Ariannol' fel roedden nhw wedi'i wneud yn y gorffennol ac efallai y gallen nhw gomisiynu diweddariadau oddi wrth ddarparwyr a rhanddeiliaid yn eu rhwydweithiau. Mae'n bwysig bod pobl yn deall sut y gellir dathlu eu gwaith a'i hyrwyddo yn ystod yr wythnos. Gofynnodd AJ i aelodau achub ar bob cyfle i hyrwyddo eu gwaith eu hunain trwy drydar amdano gyda'r hashnod, ac i eraill ail-drydar y neges.

Cam Gweithredu: Aelodau'r Grŵp Llywio i hyrwyddo gweithgareddau gallu ariannol trwy drydar amdano gan ddefnyddio'r hashnod #siaradariancymru a #moneywales yn ystod yr wythnos Gallu Ariannol sy'n cychwyn ar 12 Tachwedd 2018.

6.3 Awgrymodd PN gan y bydd yr SFGB newydd o bosibl ar waith erbyn hynny, y byddai'n fanteisiol pe gallen nhw fynd ati'n weithgar i hyrwyddo wythnos gallu ariannol. Cytunodd AJ y byddai hyn yn gyfle gwych os byddai amser yn caniatáu. Awgrymodd AJ hefyd y gellid sefydlu Gweithgor penodol i ystyried a gweithredu cynlluniau yn y cyfnod cyn yr wythnos Gallu Ariannol a chadarnhaodd y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf FISG. Hysbysodd LP yr aelodau y byddai MAS yn cynhyrchu pecyn gwybodaeth cyhoeddusrwydd a'i anfon at aelodau'r grŵp.

Camau Gweithredu:

1. Ychwanegu Gweithgor Wythnos Gallu Ariannol at yr Agenda ar gyfer cyfarfod nesaf FISG.
2. LP i anfon pecyn gwybodaeth cyhoeddusrwydd at EL pan fydd ar gael i'w ddsbarthu ymlaen at aelodau'r grŵp.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

7.1 Cytunwyd y cynhelir cyfarfod nesaf FISG oddeutu canol neu ddiwedd Medi 2018.